# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Heddwch a Chymod** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19/12/2024 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Enw:** |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor (Cadeirydd) | Carolyn Thomas |
| Jane Dodds | Eleri Griffiths (Swyddfa Heledd Fychan) |
| Bethan Siân Jones (Academi Heddwch Cymru / Ysgrifennydd) | |
| | |
| | |
| | |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Aelodau o'r Senedd yn unig, ynghyd ag Ysgrifennydd a ddarparwyd gan Academi Heddwch Cymru (AHC), yn sicrhau bod y Grŵp Trawsbleidiol yn parhau.

– Cafodd MaG ei ailethol yn Gadeirydd.

– Cafodd CT ei hailethol yn Is-Gadeirydd.

– Cafodd sefydliad AHC ei ailethol yn Ysgrifenyddiaeth.

– Nododd MaG y cyfnod cythryblus sydd ar ein gwarthaf mewn perthynas â gwrthdaro byd-eang, gan ailadrodd y ffaith ei bod yn bwysig bod y grŵp hwn yn parhau.

**Adroddiad gan Academi Heddwch Cymru: Cymru fel Cenedl Heddwch (2024)**

– Rhoddodd BSJ gyflwyniad ar waith AHC, gan gynnwys diweddariad ar yr adroddiad a gwblhawyd yn ddiweddar, sef *Cymru fel Cenedl Heddwch (Wales as a Nation of Peace)* (2024). Cafodd yr adroddiad ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer gweithredu ar draws sefydliadau yng Nghymru at ddibenion ymgorffori'r broses o feithrin heddwch yn y gwaith o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn benodol, creu Cymru lewyrchus, Cymru fwy cydnerth, Cymru iachach a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

– Bydd yr adroddiad hefyd yn cyfrannu at y broses o hwyluso deialog genedlaethol ynghylch sut i sicrhau bod Cymru yn gallu datblygu fel Cenedl Heddwch ac yn gallu cyfrannu at y weledigaeth o greu byd heb ryfel.

– Y cam nesaf yw trefnu bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi gan AHC. Awgrymodd BSJ y byddai cyfle, yn dilyn y broses honno, i drefnu cyflwyniad a thrafodaeth ar yr adroddiad yn y Grŵp Trawsbleidiol rywbryd yn 2024.

– Roedd yr awgrym hwn yn dilyn cyfres o syniadau, megis cynnal digwyddiad penodol yn y Senedd mewn perthynas â'r adroddiad dan sylw, sef *Cymru fel Cenedl Heddwch*; pasio cynnig arno; a/neu gynnal trafodaeth arno yn y Senedd. Awgrymwyd cyfres o ddyddiadau a fyddai'n cyd-fynd â'r camau gweithredu yn y Senedd ynghylch yr adroddiad, gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol Cydfyw mewn Heddwch ar 16 Mai (naill ai ar y dyddiad hwnnw neu yn ystod yr wythnos honno).

GWEITHREDU – BSJ i siarad â bwrdd AHC a llunio llinell amser ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad (cyfieithu, cyhoeddi ac ati). BSJ i fwydo'r wybodaeth hon yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol fel y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch gweithgareddau'r Senedd mewn perthynas â'r adroddiad yn fuan.